Beth sy'n digwydd nesaf?

Trosolwg

Mae byd natur yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer archwilio lleferydd ac iaith. Mae paru hynny â straeon yn creu cyfle cyffrous i gyflwyno cyd-destunau a geirfa newydd.



Gweithgareddau

Mae straeon yn wych ar gyfer cyflwyno byd natur i blant, a gall profiadau sy'n ymwneud â straeon yn yr awyr agored gyfoethogi darllen er mwyn pleser. Crëwch gornel glyd i ddarllen gyda'ch gilydd yn yr awyr agored. Ystyriwch yr angen am gysgod er mwyn darparu lle cyffyrddus ar ddiwrnodau poeth, gwlyb neu wyntog, ac ychwanegwch rŷg picnic, blanced neu hyd yn oed hamog. Ystyriwch leoliadau straeon, a cheisiwch ddarllen llyfrau yn eu cyd-destun. Mae "Y Gryffalo" yn dod yn fyw mewn ffordd hollol newydd pangaiff ei ddarllen dan goeden neu mewn coetir lleol.

Offer

Rhai clasuron awyr agored:

- Not a Stick gan Antoinette Portis
- Y Lindysyn Llwglyd Iawn gan Eric Carle
- The Owl Babies gan Martin Waddell
- Puddling gan Emma Perry

Cwestiynau allweddol

Pwy sydd yma?
Ble maen nhw?
Beth rwyt ti'n meddwl fydd yn digwydd nesaf?
(Wrth droi tudalen, ond hefyd ar ddiwedd stori gyfarwydd.)

Deilliannau dysgu

- Chwarae – dewis, ymlacio, myfyrio a chwarae rôl
- Llythrennedd – siarad, gwrando, dilyniannu, rhagweld

Symud y dysgu yn ei flaen

- Defnyddiwch ddeunyddiau naturiol i greu lluniau o gymeriadau ar ffurf celf dros dro, neu i ail-greu golygfeydd allan o'ch straeon.
- Cyflwynwch straeon newydd yn rheolaidd er mwyn cynnal diddordeb y plant.